



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- Teitl swydd:** Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Math o gontract:** Tymor penodol neu secondiad am 2 flynedd (ôl-lenwi dros dro oherwydd secondiad)
- Oriau Gwaith:** 37 awr yr wythnos
- Cyflog:** £31,210 - £38,160 y flwyddyn
- Lleoliad:** Hyblyg - gweithredir trefniant gweithio hybrid. Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, a Rhuthun
- Y swydd:** Mae gennym gyfle cyffrous dros dro i berson brwdfrydig a phrofiadol ymuno â ni fel Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus. Am fwy o wybodaeth neu i drafod unrhyw anghenion arbennig sydd gennych cysylltwch â ni trwy swyddi@cyg-wlc.cymru neu 0345 6033221.
- Dyddiad cau:** 12:00 hanner dydd, 13 Mai 2022
- Dyddiad cyfweld:** 23 Mai 2022 (cynhelir dros Teams)

Amdanom ni

Ein gweledigaeth a'n gwaith

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n egluro beth yw rôl y Comisiynydd a'i staff. Mae'r Comisiynydd yn ehangu hawliau pobl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy osod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau a gorfodi'r dyletswyddau hynny lle bo angen. Mae rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i gwynion. Ymchwilir hefyd i geisiadau yn ymwneud ag ymyrraeth â'r rhyddid sydd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae'r sefydliad yn gwneud gwaith megis ymchwil, cyhoeddi adroddiadau yn ogystal â rhoi cyngor a gwneud argymhellion. Gwneir gwaith dylanwadu ar bolisi lle mae gwneud hynny'n strategol bwysig i'r Gymraeg. Y tu hwnt i ofynion y Mesur mae'r Comisiynydd yn hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach gan weithio yn y trydydd sector a'r sector preifat. Yn fwy cyffredinol mae'n gyfrifol am safoni enwau lleoedd ac am hyrwyddo'r cynllun Iaith Gwaith, a chynhelir ymgyrchoedd ymysg defnyddwyr y Gymraeg yn rheolaidd i roi gwybod am ein gwaith a'r cyfleoedd sydd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Ar hyn o bryd rydym yn cyflwyno rhaglen drawsnewid gyffrous ar draws y sefydliad sy'n canolbwyntio ar ailgynllunio'n llwyr ein gwasanaethau digidol, ein model gweithredu targed a'n diwylliant. Wrth wneud, byddwn yn datblygu sgiliau, galluedd a meddylfryd gwahanol fel gweithlu ar gyfer y newid hwn lle mae ymddygiadau hyblyg, beiddgar a chwilfrydig yn arferol a lle caiff grymuso ei annog a'i ddefnyddio.

Gweithio i ni

Mae pobl yn greiddiol i'n holl waith, a chredwn y dylai'r gweithle fod yn lle cyfeillgar a chynhwysol. Mae meithrin ymdeimlad o gymuned lle mae pobl yn medru creu cysylltiadau agos yn flaenoriaeth i ni. Drwy ein polisi ar iechyd a lles, a datblygiad proffesiynol, rydym yn ymrwmo i ddysgu a datblygu, i gefnogi ac annog fel bod pawb yn ffynnu ac yn gweithio at gyrraedd eu llawn botensial. Ein nod yw dathlu llwyddiant ac i hyrwyddo gwerthoedd ein sefydliad.

Mae gennym amodau a thelerau cyflogaeth ardderchog i'w cynnig - gan gynnwys 31 diwrnod o wyliau blynyddol, cynllun oriau hyblyg (fflecsi) ac aelodaeth i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Rydym yn dathlu amrywiaeth ac yn ymrwmo i greu amgylchedd cynhwysol i bob gweithiwr ac yn ymrwmo i drin ein staff, a phawb sy'n ymwneud â ni yn deg, gyda pharch a heb wahaniaethu.

Disgrifiad swydd

Teitl y swydd: Swyddog Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus

Graddfa: HEO (£31,210 - £38,160)

Yn atebol i: Uwch Swyddog Cyfathrebu

Pwrpas

Fel aelod o'r tîm cyfathrebu byddwch yn gyfrifol am rannu gwybodaeth a hyrwyddo pob elfen o waith Comisiynydd y Gymraeg. Byddwch yn defnyddio eich sgiliau a thechnegau i gyfleu negeseuon a denu sylw yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd ym mhobman yn ymwybodol o waith y Comisiynydd.

Dyletswyddau craidd

- Darparu gwasanaeth cyfathrebu cyflym, arbenigol a dibynadwy, gan ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau gan y wasg a'r cyfryngau.
- Rhoi cyngor i aelodau staff y Comisiynydd ynghylch rhannu gwaith y sefydliad a darparu sesiynau briffio cyn cyfweiliadau ar y cyfryngau.
- Llunio safbwyntiau ac ymatebion y Comisiynydd mewn modd rhagweithiol ac adweithiol.
- Ysgrifennu datganiadau i'r wasg, a pharatoi a chomisiynu deunydd gweledol addas i gyd-fynd â'r straeon hynny gan sicrhau eu dosbarthu'n eang.
- Cyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid y Comisiynydd, drwy gyfarfodydd, cyflwyniadau a thrwy ysgrifennu a chylchredeg cylchlythyr i ran-ddeiliaid.
- Datblygu perthnasoedd gwaith cryf, rhagweithiol gyda newyddiadurwyr ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig.
- Ysgrifennu, golygu a phrawf ddarllen copi ar gyfer yr adroddiad blynyddol ac adroddiadau eraill, cyhoeddiadau, y wefan, datganiadau ac erthyglau, a deunydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol gan gynnig syniadau o ran deunydd addas i gynulleidfaoedd amrywiol.
- Gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Comisiynydd drwy weithio gyda thimoedd ar gynlluniau cyfathrebu penodol, hyrwyddo prif negeseuon ac ymgyrchoedd yn y wasg a llunio datganiadau i ddwyn perswâd ar olygyddion a newyddiadurwyr i gynnwys y straeon.
- Datblygu sgiliau digidol e.e ffilmio a golygu fideo er mwyn cynhyrchu cynnwys ar gyfer y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol sy'n ddeniadol, i gefnogi a hyrwyddo gwaith y Comisiynydd.
- Cynorthwyo gyda chynnal a chreu cynnwys ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Comisiynydd, gan ateb yn ôl yr angen.

- Diweddarau gwefan y Comisiynydd a'r adran newyddion yn rheolaidd gan sicrhau bod y cynnwys yn cael ei hyrwyddo a'i rannu yn eang.
- Cadw golwg ar ddatblygiadau o bwys a newyddion y dydd a'u rhannu yn ôl yr angen.
- Creu a chylchredeg negeseuon wythnosol a chylchlythyron mewnol yn crynhoi pynciau pwysig a gwybodaeth berthnasol i staff y Comisiynydd.
- Monitro ein sylw yn y cyfryngau a helpu i werthuso ein hymdrechion cyfathrebu er mwyn gwella perfformiad.

Dyletswyddau cyffredinol

Yn ddibynnol ar gyfarwyddyd a chynlluniau yr Uwch Swyddog Cyfathrebu, byddwch yn cyfrannu fel aelod o dîm at holl waith yr adran gan ddangos y gallu i fod yn hyblyg o ran y tasgau y gofynnir i chi ymdrin â hwy. Byddwch yn cyfrannu at adroddiadau meintiol a dadansoddol ar broffil y Comisiynydd ar y cyfryngau ac ar-lein gan weithredu'n gyson ac yn amserol yn unol â holl bolisiau a chanllawiau'r Comisiynydd. Byddwch yn ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill yn ôl y galw.

Manyleb person

Priodoleddau	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	Gradd neu gymhwyster cyfatebol	Cymhwyster proffesiynol yn y maes cyfathrebu. Aelodaeth o sefydliad siartredig perthnasol.
Profiad	Profiad o olygu, ysgrifennu a llunio datganiadau, erthyglau ac adroddiadau. Profiad o ymgysylltu â'r wasg a datblygu perthnasau adeiladol. Profiad o weithio'n llwyddiannus ar ymgyrchoedd hyrwyddo.	.

	Profiad o ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a phlatfformau digidol i gyflawni ymgyrchoedd.	
Sgiliau a gwybodaeth	<p>Llygad graff am stori newyddion, yn llawn syniadau ar sut i gyfathrebu ar draws amrywiaeth o sianeli.</p> <p>Sgiliau ysgrifenedig rhagorol i ddrafftio datganiadau i'r wasg, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y wefan a chynnwys cyfathrebu arall sy'n hybu dealltwriaeth o waith y Comisiynydd</p> <p>Sgiliau cydweithio da er mwyn meithrin cysylltiadau mewnol ac allanol</p>	
Priodoleddau personol	<p>Y gallu i gydweithio ac ymgynghori gyda staff, a sicrhau cydweithrediad effeithiol a phroffesiynol ar bob lefel.</p> <p>Y gallu i gyflawni gwaith yn gyflym a thrwyadl ac o dan bwysedd amser.</p> <p>Y gallu i ymateb yn gyflym a blaenoriaethu gwaith.</p> <p>Y gallu i feddwl yn greadigol</p> <p>Y gallu i weithio'n annibynnol pan fo angen.</p>	

Amodau a thelerau

Contract

2 flynedd (ôl-lenwi dros dro oherwydd secondiad)

Cyflog	Y raddfa gyflog flynyddol ar gyfer y swydd hon yw £31,210 i £38,160. Caiff y cyflog ei dalu'n fisol, fel rheol ar y diwrnod olaf yn y mis.
Lleoliad	Hyblyg - gweithredir trefniant gweithio hybrid. Lleolir swyddfeydd y Comisiynydd yng Nghaerdydd, Caernarfon, Caerfyrddin, a Rhuthun
Pensiwn	Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithredu Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yn unol â Deddf Pensiynau 2008 mae'n ofynnol i ni eich cofrestru'n awtomatig – os ydych am eithrio eich hunan o'r cynllun pensiwn bydd gofyn i chi ein hysbysu yn ysgrifenedig.
Oriau Gwaith	Yr oriau amodol ar gyfer staff sy'n gweithio llawn-amser yw 37 awr yr wythnos, heb gynnwys toriadau prydau bwyd. Oriau arferol yw 9.00 tan 5.00.
Oriau hyblyg	Mae'n rhydd i staff Comisiynydd y Gymraeg ddewis gweithio oriau hyblyg. O dan y cynllun, mae'n rhaid i unigolyn weithio cyfanswm o 37 awr yr wythnos (yn ddarostyngedig i'r hawl i gario amser drosodd).
Gwyliau	Yn flynyddol cewch 31 diwrnod y flwyddyn o wyliau gyda chyflog. Yn ogystal cewch 10 diwrnod o wyliau cyhoeddus a braint.
Cyfnod Prawf	Bydd eich swydd gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar brawf am 6 mis.